Senedd Cymru
**Comisiwn y Senedd**

# **Cynllun Ieithoedd Swyddogol:** Adroddiad Blynyddol 2023-24

Mehefin 2024




senedd.cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**www.senedd.cymru**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Senedd Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6565**

**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2024**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
**Comisiwn y Senedd**

# **Cynllun Ieithoedd Swyddogol:** Adroddiad Blynyddol 2023-24

Mehefin 2024



# Cynnwys

**Rhagair** .......... **6**

**Ein Perfformiad** .......... **9**

Ein hymrwymiad a'n gwerthoedd .......... 9

**Safonau Gwasanaeth** .......... **10**

Busnes y Senedd .......... 10

Cyfathrebu mewnol .......... 10

Caffael a gweithio mewn partneriaeth .......... 11

Dyletswyddau Aelodau o'r Senedd .......... 11

Rhannu Arbenigedd .......... 12

Strategaeth Sgiliau .......... 12

**Gwybodaeth Ystadegol** .......... **14**

Recriwtio .......... 14

Busnes y Senedd .......... 16

Trafodion .......... 19

**Themâu** .......... **20**

Sgiliau Iaith .......... 20

Recriwtio .......... 21

Ethos dwyieithog y sefydliad .......... 22

**Monitro a Chydymffurfio** .......... **24**

# Rhagair

Mae'n bleser gennyf gyflwyno adroddiad blynyddol Comisiwn y Senedd ar ei Gynllun Ieithoedd Swyddogol yn unol â gofynion Deddf Ieithoedd Swyddogol 2012. Mae'r adroddiad blynyddol hwn yn bwrw golwg dros ein gwaith a'n perfformiad o ran darparu gwasanaethau dwyieithog dros y flwyddyn ddiwethaf.

Eleni rydym wedi cynnal arolwg sgiliau iaith Gymraeg ar draws holl Staff Comisiwn y Senedd. Gwelwn arwyddion cadarnhaol yn yr arolwg sgiliau sy'n awgrymu fod lleihad yng nghanran y staff â dim sgiliau yn y Gymraeg, a chynnydd mewn sgiliau ieithyddol ar Lefel 1-3. Mae hyn yn arwydd fod y penderfyniad i gyflwyno Cwrteisi Ieithyddol yn y Senedd ddiwethaf wedi creu gwaelodlin cadarn i adeiladu arno, ac yn dangos y potensial sydd yn y sefydliad i barhau i anelu'n uwch eto at y dyfodol.

Rydym hefyd wedi dechrau ar y gwaith o adolygu cynlluniau iaith y gwasanaethau. Bydd y gwaith hwn yn monitro capasiti dwyieithog ar draws y sefydliad, ac yn sicrhau ein bod yn parhau i ddarparu gwasanaethau dwyieithog o'r radd flaenaf.

Hefyd, fel yr ymrwymais y llynedd ar lawr y siambr, rydym wedi ystyried y gefnogaeth sydd ar gael i Aelodau o'r Senedd i'w galluogi i gyfrannu yn eu dewis iaith, ac i fod yn hyderus wrth wneud hynny mewn trafodion. Serch hynny, rydym yn parhau yn bryderus am y patrymau ynghylch defnydd y Gymraeg yn ysgrifenedig ac ar lafar mewn perthynas â busnes y Senedd a welir yn y data diweddaraf. Byddaf yn trafod gyda fy nghyd Aelodau o'r Comisiwn a fforymau allweddol eraill, megis Fforwm y Cadeiryddion Pwyllgorau, pa gamau ymarferol pellach y gallwn eu rhoi ar waith dros y misoedd nesaf gyda golwg ar geisio adfer perfformiad i lefelau blaenorol yn y lle cyntaf, ac i esgor ar ragor o ddefnydd o'r Gymraeg wrth i Aelodau a'u staff gyflwyno busnes yn ysgrifenedig ac i ddefnyddio'r Gymraeg ar lafar yn nhrafodion y Cyfarfod Llawn a'r Pwyllgorau maes o law.

Dros y flwyddyn sydd i ddod, gyda Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) wedi pasio Cyfnod 4 ac ar fin dod yn ddeddf ac wrth i daith seneddol y Bil Senedd Cymru (Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol) barhau, bydd y gwaith o baratoi ar gyfer Senedd newydd 2026 yn symud i gyfnod newydd. Mae'r ddeddfwriaeth diwygio'r Senedd yn cynnig cyfle cyffrous i ni bwyso a mesur yr hyn sydd wedi'i gyflawni o ran ein prif gorff democrataidd yng Nghymru mor belled, a'n democratiaeth yn fwy cyffredinol, ac i ddychmygu ac ail ddychmygu ein huchelgais mewn cyd-destun newydd. Mae'n gwbl allweddol ein bod yn ystyried o'r newydd sut ydym yn

sicrhau – o ran ein ffyrdd o weithio, ein darpariaeth o ran gwasanaethau a’n hethos, ac o ran y fframwaith cyfreithiol sy’n gyrru’r gwaith – bod defnydd a statws y Gymraeg yn ganolog ac yn flaenllaw ym mywyd a gwaith y Senedd. Fel Aelodau, partneriaid, ac heb os, fel dinasyddion Cymru, rwyf am i ni herio’n gilydd a holi: beth mwy sydd angen ei wneud i sicrhau y gellir ymwneud yn llwyr ac yn ddi-rwystr â busnes a gwaith y Senedd yn Gymraeg, fel y gellir ei wneud yn Saesneg ar hyn o bryd? Sut mae sicrhau bod y Gymraeg yn wirioneddol gydradd â’r Saesneg yn ein trafodion ac yng ngweinyddiaeth y Senedd? Ac yn bwysicach oll, sut ydym ni’n atebol i’r bobl ydym ni’n eu gwasanaethu – sef dinasyddion Cymru – am ein perfformiad ac yn chwarae ein rhan yn yr ymdrech genedlaethol, drawsbleidiol, i gynllunio dyfodol i’r Gymraeg?

Edrychaf ymlaen at annog a chyfrannu at y drafodaeth honno dros y cyfnod sydd i ddod.



Adam Price AS

**Y Comisiynydd â chyfrifoldeb dros Ieithoedd Swyddogol**



# Ein Perfformiad

## Ein hymrwymiad a'n gwerthoedd

Mae Senedd Cymru yn sefydliad sy'n gweithredu ar sail ein gwerthoedd, ac mae'r gwerthoedd hynny yn adlewyrchu'r ymrwymiad i sicrhau amrywiaeth ar draws y sefydliad. Rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog amrywiaeth o fewn ein gweithlu. Gwerthfawrogir ein holl staff, pa mor ddwyieithog bynnag ydynt, am eu hymrwymiad i'r Senedd a'u harbenigedd proffesiynol a seneddol. Mae egwyddorion y polisi urddas a pharch wrth wraidd popeth a wnawn. Rydym yn disgwyl i bob aelod o staff fod yn ymroddedig i ddarparu cymorth a gwasanaethau seneddol o'r radd flaenaf i Aelodau, eu staff cymorth a'r cyhoedd a hynny yn ein dwy iaith swyddogol.

Eleni, mae'r tîm Ieithoedd Swyddogol wedi canolbwyntio ar gynllunio capasiti trwy gychwyn ar  y gwaith o adolygu cynlluniau iaith y gwasanaethau unigol gyda Phenaethiaid Gwasanaeth a Chydgysylltwyr. Yn dilyn rhoi argymhellion yr archwiliad mewnol diwethaf ar waith, mae adolygu a diweddaru cynlluniau iaith gwasanaeth yn rhan o broses sicrwydd Comisiwn y Senedd. Mae Penaethiaid Gwasanaeth yn nodi yn eu datganiad sicrwydd blynyddol eu bod yn adolygu ac yn diweddaru eu cynlluniau yn ôl y gofyn, ac yn gwneud defnydd ohonynt wrth gynllunio capasiti. Caiff y lefelau sicrwydd a ddarperir eu hadlewyrchu yn natganiadau sicrwydd y Cyfarwyddwyr a'r Prif Weithredwr. Mae hyn yn sicrhau bod unrhyw argymhellion neu fannau gwan a nodir yn ystod y broses yn cael eu cofnodi, gyda phwyntiau gweithredu yn cael eu pennu.

# Safonau Gwasanaeth

## Busnes y Senedd

Gall Aelodau o'r Senedd baratoi ar gyfer cyfarfodydd pwyllgorau yn eu dewis iaith. Mae'r timau integredig ar gyfer y pwyllgorau unigol yn paratoi dogfennau briffio yn unol â dymuniad aelodau'r pwyllgorau. Bydd yr holl ddogfennau a baratoir ar gyfer trafodion y pwyllgorau yn ddwyieithog, a gall Aelodau ddewis cyfrannu a thrafod yn eu dewis iaith. Gall Aelodau sy'n derbyn cefnogaeth gan y Tîm Ieithoedd Swyddogol drefnu sesiynau i baratoi ar gyfer trafodion. Gall hyn gynnwys ymarfer ar gyfer cyflwyno datganiad 90 eiliad, gofyn cwestiwn yn y cyfarfod llawn, neu holi tyst mewn cyfarfod pwyllgor. Mae'r Tîm Ieithoedd Swyddogol yn cynnig sesiynau byr a chanllawiau hefyd ar gadeirio cyfarfodydd neu ymadroddion syml i'w defnyddio mewn cyfarfodydd.

## Cyfathrebu mewnol

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae'r timau cyfathrebu mewnol wedi bod wrthi yn adolygu ac yn diweddaru strategaethau cyfathrebu. Cynhaliwyd adolygiad cynhwysfawr o'r strategaeth gyfathrebu mewnol, gyda'r nod o sicrhau bod holl staff y Comisiwn, waeth beth yw eu patrwm a'u lleoliad gwaith, yn derbyn gwybodaeth yn amserol ac ar fformat addas. Roedd hyn yn cynnwys cytuno ar arddull corfforaethol, sefydlu grid cynllunio cyfathrebu a phroses cyfathrebu cyflym. Yn unol â safonau gwasanaeth y Cynllun Ieithoedd Swyddogol, mae pob elfen o'r strategaeth yn cynnwys darpariaeth ar gyfer sicrhau bod ein holl negeseuon corfforaethol yn ddwyieithog a hynny yn gydamserol. Mae hyn yn cynnwys y broses cyfathrebu cyflym sy'n cyfleu negeseuon ar frys i'r holl staff. Mae'r Comisiwn hefyd yn gwneud defnydd o 'Viva Engage' ar fewnrwyd y staff. Bydd y negeseuon gwreiddiol yn cael eu postio yn ddwyieithog, ac mae croeso i aelodau unigol o staff ymateb yn eu dewis iaith swyddogol gan ddefnyddio'r cyfleuster cyfieithu i gael bras gyfieithiad o'r ymateb.

Mae'r Tîm Dysgu ac Ymgysylltu â'r Aelodau hefyd wedi adolygu eu prosesau o ran cyfathrebu ag Aelodau a'u Staff Cymorth. Diben yr adolygiad oedd galluogi Aelodau a'u Staff Cymorth i ddod o hyd i atebion i'w hymholiadau yn gyflymach, ac i leddfu a chreu proses lywio mwy greddfol wrth iddynt ddefnyddio mewnrwyd yr Aelodau. Penderfynwyd creu strwythur safonol ar gyfer tudalennau glanio sy'n canolbwyntio ar gynnig mynediad cyflym at y gwasanaethau a gynigiwn iddynt. Canlyniad yr adolygiad yw creu canolfan wybodaeth dwyieithog hynod addysgiadol a dibynadwy lle gall Aelodau a'u Staff Cymorth gael hyd i atebion i

gwestiynau a chymorth pellach a hynny heb orfod ymholi nac aros am ymatebion i'r ymholiadau.

## Caffael a gweithio mewn partneriaeth

Bellach mae defnydd o'r gofynion answyddogaethol (non-functional requirements) a luniwyd ar gyfer prosiectau i gaffael systemau neu feddalwedd wedi ymwreiddio. Pan fydd timau yn casglu eu gofynion ar gyfer prosiect, mae dwyieithrwydd yn rhan annatod o'r ystyriaeth. Mae rheolwyr prosiectau a dadansoddwyr busnes yn cynnwys y gofynion yn ddiofyn fel rhan o unrhyw brosiect cymwys. Caiff y gofynion eu haddasu yn ôl y math o brosiect sydd dan sylw i sicrhau ein bod yn llwyddo i gaffael yr hyn sy'n gweithio orau i'r defnyddwyr a'r sefydliad. Mae aelod o'r Tîm Ieithoedd Swyddogol hefyd yn gyfrifol am asesu'r ymatebion i'r gofynion mewn unrhyw dendrau a gyflwynir.

## Dyletswyddau Aelodau o'r Senedd

Mae'r Tîm Dysgu ac Ymgysylltu â'r Aelodau yn adolygu eu rhaglen hyfforddiant i Aelodau a'u Staff Cymorth yn rheolaidd. Ar y cyd â'r Tîm Cymorth Busnes i'r Aelodau, aethpwyd ati i lunio cyfres o sesiynau 'Awr neu Hanner Awr Pŵer'. Nod y sesiynau yw cyflwyno hanfodion pwnc i Aelodau neu eu staff cymorth mewn hanner awr. Gall Aelodau ddewis cymryd rhan mewn sesiynau Cymraeg neu yn Saesneg. Yn ychwanegol at y sesiynau byw, mae rhai sesiynau wedi cael eu haddasu i greu fideos byrrach yn Gymraeg ac yn Saesneg i'w cyhoeddi ar Fewnrwyd yr Aelodau. Mae cynnwys y sesiynau yn amrywio o greu cyhoeddiadau, a llenwi ffurflenni ar gyfer hawlio lwfansau i faterion megis safonau ymddygiad. Yn dibynnu ar destun yr hyfforddiant, caiff unrhyw ddyletswyddau sy'n rhan o safonau gwasanaeth y Cynllun Ieithoedd Swyddogol eu cynnwys fel rhan o'r fideo. Aelodau o staff y timau Cymorth Busnes i'r Aelodau a Dysgu ac Ymgysylltu âr Aelodau sy'n arwain y sesiynau ac yn lleisio'r fideos yn y ddwy iaith. Golyga hyn y gall Aelodau a'u Staff Cymorth fanteisio ar arbenigedd y staff yn eu dewis iaith naill ai yn fyw, neu ar adeg sy'n gyfleus iddynt.

## Rhannu Arbenigedd

Yn ôl ein harfer, rydym unwaith eto eleni wedi manteisio ar y cyfle i gynnig cymorth a chefnogaeth i sefydliadau ar draws Cymru a thu hwnt, ac i glywed gan sefydliadau sy'n rhannu eu profiadau hwy hefyd. Rhan bwysig o ethos ein sefydliad yw dathlu ein llwyddiannau trwy drafod ein profiadau a rhannu gwersi a ddysgwyd ers i'r Ddeddf Ieithoedd Swyddogol ddod i rym. Ein nod yw parhau gyda'r gwaith hwn a cheisio cyfleoedd newydd i wneud hynny. Eleni roedd yn bleser gan y tîm Ieithoedd Swyddogol gymryd rhan flaenllaw mewn Colocwiwm ar Seneddau Dwyieithog fis Gorffennaf 2023 a drefnwyd gan y Rannóg ân Aistriúcháin (Gwasanaeth Cyfieithu a Gwasanaethau Dwyieithog) yr Oireachtas. Roedd y tîm yn gyfrifol am gyflwyniadau ar ddeddfwriaeth, gwasanaethau i Aelodau, recriwtio, hyfforddiant, ymgysylltu â'r cyhoedd, ac ymwybyddiaeth a normaleiddio. Mae'r berthynas rhwng y tîm Ieithoedd Swyddogol a thîm y Rannóg ân Aistriúcháin yn parhau.

Yn yr un modd, rydym yn awyddus i ddysgu gan eraill a chafwyd cyfle i wneud hynny eleni trwy ymuno â Sioe Deithiol yr Iaith ar Daith, a gynhaliwyd ar y cyd rhwng Comisiynydd y Gymraeg a'r Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol. Cafwyd sesiynau ar newid ymddygiad, hyrwyddo gwasanaethau Cymraeg, drafftio dwyieithog a chyfle i rannu llwyddiannau.

## Strategaeth Sgiliau

Eleni cynhaliwyd arolwg sgiliau iaith Gymraeg er mwyn casglu gwybodaeth am sgiliau ar draws holl staff Comisiwn y Senedd. Casglwyd y wybodaeth trwy ffurflen electronig, gan ddefnyddio'r matrics sgiliau i ddisgrifio'r lefelau. Mae'r wybodaeth yn hanfodol ar gyfer cynllunio capasiti gwasanaethau unigol yn ogystal â Chomisiwn y Senedd yn gyffredinol. Wrth i ni symud tuag at ail hanner y Chweched Senedd, bydd y wybodaeth yn cael ei defnyddio i gynllunio ar gyfer y Seithfed Senedd gan gynnwys unrhyw newidiadau a ddaw yn sgil diwygio Seneddol. Mae gweithio'n ddwyieithog yn rhan o unrhyw ystyriaethau a pharatoadau ar gyfer y Seithfed Senedd. Bydd y Cyfarwyddwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu, cynrychiolwyr o'r Tîm Ieithoedd Swyddogol neu'r Gwasanaeth Cyfieithu a Chofnodi yn aelodau o'r byrddau prosiect a chynllunio perthnasol. Dros y flwyddyn nesaf bydd y gwaith o adolygu cynlluniau iaith y gwasanaethau unigol yn parhau gan ymgorffori canlyniadau'r arolwg sgiliau iaith Gymraeg, a pharatoi ar gyfer cynnwys unrhyw newidiadau neu ychwanegiadau i dimau yn sgil diwygio Seneddol.

Mae canlyniadau'r arolwg sgiliau iaith Gymraeg yn galonogol. Cafwyd cynnydd yn nifer yr ymatebwyr sydd wedi nodi bod sgiliau Cymraeg ganddynt. Ni welwyd

newid yn nifer y bobl sydd wedi hunan asesu ar lefelau 4 a 5, ond cafwyd cynnydd yn nifer y bobl sy'n nodi bod sgiliau lefelau 1 – 3 ganddynt. Mae canran y bobl sy'n nodi eu bod yn meddu ar sgiliau lefel cwrteisi wedi cynyddu o un pwynt, a dim ond 4% sy'n nodi nad oes sgiliau Cymraeg o gwbl ganddynt. Gofynnwyd i ymatebwyr hunan asesu eu sgiliau mewn perthynas â matrics sgiliau iaith Gymraeg Comisiwn y Senedd, a defnyddiwyd yr ymatebion ar gyfer sgiliau siarad at ddibenion yr adroddiad hwn. Byddwn yn dadansoddi'r ymatebion ymhellach yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

***Canlyniadau'r arolwg sgiliau iaith Gymraeg***

| Lefel sgiliau | 2019 | 2024 |
|---|---|---|
| **Lefel 4-5** | 43% | 43% |
| **Lefel 1-3** | 25% | 30% |
| **Lefel Cwrteisi** | 22% | 23% |
| **Lefel 0** | 10% | 4% |

*Rydw i wir wedi mwynhau cael gwersi Cymraeg eto ers ymuno â Chomisiwn y Senedd.*

*Maen nhw wedi bod o fudd mawr i mi, nid yn unig ar gyfer fy natblygiad proffesiynol, ond hefyd y manteision cymdeithasol a llesiant o wneud rhywbeth y tu allan i'r swydd bob dydd, cyfarfod â gwahanol bobl a magu hyder mewn sgil newydd.*

# Gwybodaeth Ystadegol

Yn unol â Safon Gwasanaeth 11.3 y Cynllun Ieithoedd Swyddogol, mae'n ofynnol i Gomisiwn y Senedd gynnwys gwybodaeth ystadegol yn ei adroddiad blynyddol ar y Cynllun Ieithoedd Swyddogol.

Rydym yn defnyddio'r wybodaeth i sicrhau ein bod yn parhau i ddarparu gwasanaethau dwyieithog o'r radd flaenaf ac yn rhoi'r Cynllun ar waith yn gyson ac yn unol â'r holl safonau gwasanaeth a disgwyliadau ein rhanddeiliaid. Darparwyd y wybodaeth ystadegol o'r flwyddyn flaenorol er gwybodaeth hefyd.

## Recriwtio

***Tabl 1: Nifer y swyddi a hysbysebwyd ar lefel Cymraeg Cwrteisi, neu gyda gofyniad sgiliau iaith uwch.***

***Allanol***

| | Swyddi a hysbysebwyd | Lefel Cwrteisi | Cyfuniad o sgiliau* | Lefel 1-5 |
|---|---|---|---|---|
| **2021-22** | 47 | 32 | 0 | 15 |
| **2022-23** | 51 | 34 | 0 | 17 |
| **2023-24** | **34** | **24** | | **10** |

***Mewnol***

| | Swyddi a hysbysebwyd | Lefel Cwrteisi | Cyfuniad o sgiliau* | Lefel 1-5 |
|---|---|---|---|---|
| **2021-22** | 20 | 9 | 0 | 11 |
| **2022-23** | 19 | 13 | 0 | 6 |
| **2023-24** | **27** | **20** | | **7** |

***Cyfanswm***

| | Swyddi a hysbysebwyd | Lefel Cwrteisi | Cyfuniad o sgiliau * | Lefel 1-5 |
|---|---|---|---|---|
| **2021-22** | 67 | 41 | 0 | 26 |
| **2022-23** | 70 | 47 | 0 | 23 |
| **2023-24** | **61** | **44** | | **17** |

***Canrannau***

| | Swyddi lefel cwrteisi | Swyddi lefel 1 - 5 |
|---|---|---|
| **2021-22** | 61% | 39% |
| **2022-23** | 67% | 33% |
| **2023-24** | **72%** | **28%** |

Caiff lefel y sgiliau iaith sy'n ofynnol ar gyfer pob swydd ei nodi yng nghynlluniau iaith y gwasanaethau unigol trwy drafodaeth rhwng y Cyd-gysylltydd Ieithoedd Swyddogol, y Pennaeth Gwasanaeth a'r Tîm Ieithoedd Swyddogol. Mae cadarnhau'r gofynion sgiliau iaith ar gyfer pob swydd wag neu swydd newydd yn rhan o'r broses ar gyfer cael caniatâd i hysbysebu gan y Bwrdd Gweithredol.

“

*Un o fanteision ychwanegol fy ngwersi gyda Chomisiwn y Senedd yw'r bobl wych rydw i wedi cyfarfod â nhw o wahanol wasanaethau – rhai na fyddwn i byth yn gweithio gyda nhw o ddydd i ddydd fel arfer.*

*Mae wedi fy helpu i ddysgu am eu gwaith a, thrwy gyfrwng y Gymraeg, gwneud ffrindiau newydd.”.*

## Busnes y Senedd

***Tabl 2: Dogfennau a gyhoeddwyd gan Bwyllgorau'r Senedd yn Gymraeg, yn Saesneg ac yn ddwyieithog ar gyfer y flwyddyn 2023-24.***

| Math o ddogfen | Cymraeg | Saesneg | Dwyieithog |
|---|---|---|---|
| **Paratowyd yn fewnol** | | 34 | 1,148 |
| **Ysgrifennydd Gwladol** | | 33 | 4 |
| **Llywodraeth Cymru** | | 56 | 1,143 |
| **Aelodau unigol** | | 11 | 18 |
| **Allanol** | **5** | **528** | **319** |

Mae Pwyllgorau'r Senedd yn paratoi pob dogfen sydd i'w chyhoeddi ar wefan y Senedd yn ddwyieithog. Yn unol â gofynion y Cynllun Ieithoedd Swyddogol, bydd llythyrau a dogfennau ar gyfer unigolion neu sefydliadau sydd wedi datgan eu dewis iaith yn cael eu paratoi yn yr iaith honno yn unig.

Mae ein dull o fonitro'r data hwn wedi newid. Bellach rydym yn cofnodi a yw'r dogfennau yn cael eu cyhoeddi yn gydamserol, ac yn cynnwys yr holl ddogfennau a baratowyd ar gyfer cyfarfodydd Pwyllgorau. Mater i aelodau'r pwyllgorau unigol yw penderfynu ar ba ffurf y caiff dogfennau sydd i'w hystyried gan y Pwyllgor mewn sesiynau preifat (e.e. adroddiadau drafft), a dogfennau briffio i'r Aelodau eu darparu. Mae hyn yn cynnwys iaith y dogfennau hynny. Mae'r aelodau o staff sy'n cefnogi'r Pwyllgorau yn trafod gyda'r Aelodau er mwyn deall eu dulliau gweithio, a sicrhau eu bod yn gallu paratoi ar gyfer cyfarfodydd a chymryd rhan mewn trafodion yn amserol, ac yn eu dewis iaith swyddogol.

***Tabl 3: Nifer y dogfennau a osodwyd yn Gymraeg, yn Saesneg ac yn ddwyieithog.***

| Blwyddyn | Nifer y dogfennau a osodwyd | Nifer y dogfennau na osodwyd yn ddwyieithog | Canran |
|---|---|---|---|
| **2021-22** | 930 | 69 | 7% |
| **2022-23** | 885 | 47 | 5% |
| **2023-24** | **777** | **39** | **5%** |

Mae dogfennau a baratowyd gan Gomisiwn y Senedd yn cael eu paratoi a'u gosod yn ddwyieithog. Yn unol â Rheol Sefydlog 15.4 rhaid i unrhyw ddogfen a osodir neu unrhyw fusnes a gyflwynir gan y Llywydd, y Comisiwn, y llywodraeth, unrhyw bwyllgor neu'r Clerc gael ei osod neu ei gyflwyno yn Gymraeg a Saesneg, cyn belled ag y bo'n briodol o dan yr amgylchiadau ac yn rhesymol ymarferol.

Mae’r dogfennau na osodwyd yn ddwyieithog eleni yn syrthio i bedwar categori:

- Adroddiadau gan gyrff allanol y mae gofyn i Gomisiwn y Senedd neu Lywodraeth Cymru eu gosod gerbron y Senedd;
- Memoranda Esboniadol;
- Is-ddeddfwriaeth;
- Memoranda Cydsyniad Offeryn Statudol

Mae'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad wedi bod yn ceisio mynd i'r afael â mater hirsefydlog yn ymwneud â rhai mathau o is-ddeddfwriaeth sy'n cael eu gosod yn y Senedd yn Saesneg yn unig.

Pan mae'n ofynnol gosod rhai mathau o is-ddeddfwriaeth yn y Senedd a Senedd y DU, mae Llywodraeth Cymru o’r farn – gan nad oes unrhyw weithdrefnau seneddol arferol yn bodoli yn San Steffan ar gyfer gosod offerynnau statudol dwyieithog – fod yn rhaid eu gosod yn y Senedd yn uniaith Saesneg.

Mae'r Pwyllgor a'i ragflaenwyr wedi dwyn achosion o'r fath i sylw'r Senedd. Fodd bynnag, yn hydref 2023 penderfynodd ofyn i bwyllgorau yn Senedd y DU am eu barn ar y rhwystrau gweithdrefnol a ddisgrifiwyd gan Lywodraeth Cymru.

Ym mis Ionawr 2024, ymatebodd pwyllgorau gweithdrefnau dau Dŷ'r Senedd i'r Pwyllgor yn dweud nad oes unrhyw weithdrefnau'n atal gosod offerynnau dwyieithog yn y naill Dŷ neu'r llall. Yn dilyn hynny, trosglwyddodd y Pwyllgor y wybodaeth hon i Gwnsler Cyffredinol Llywodraeth Cymru.

***Tabl 4: Busnes a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno***

| Blwyddyn | Cwest Llafar | Cwest Ysg | Cynigion | Gwelliannau | Dat Barn | Cwest Amserol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **2021-22 (Cym)** | 14% | 4% | 2% | 4% | 10% | 18% |
| **2021-22 (Dwy)** | 0 | 0 | 11% | 11% | 3% | 0 |
| **2022-23 (Cym)** | 15% | 3% | 2% | 0 | 6% | 10% |
| **2022-23 (Dwy)** | 0 | 0 | 51% | 32% | 2% | 0 |
| **2023-24 (Cym)** | 9% | 1% | 3% | 11% | 4% | 6% |
| **2023-24 (Dwy)** | 1% | 0 | 55% | 31% | 2% | 0 |

Gall Aelodau unigol gyflwyno busnes yn eu dewis iaith. Mae hyfforddiant ar gael i Aelodau a staff cymorth sy'n dymuno gwella eu sgiliau Cymraeg ysgrifenedig, a byddwn yn mynd ati i hyrwyddo'r hyfforddiant ymhellach er mwyn sicrhau eu bod yn hyderus i ddefnyddio'u sgiliau wrth gyflwyno busnes.

## Trafodion

***Tabl 5: Canran y cyfraniadau yn Gymraeg yn nhrafodion y Cyfarfod Llawn, ac mewn cyfarfodydd Pwyllgorau.***

| Math o gyfraniad | Canran y cyfraniadau Cymraeg 2021-22 | Canran y cyfraniadau Cymraeg 2022-23 | Canran y cyfraniadau Cymraeg 2023-24 |
|---|---|---|---|
| **Trafodion y Cyfarfod Llawn** | 30% | 30% | **28%** |
| **Trafodion Pwyllgorau** | 12% | 8% | **9%** |

Mae canran y cyfraniadau Cymraeg mewn Cyfarfodydd Llawn eleni wedi gostwng ychydig fodd bynnag, gwelwyd cynnydd bychan yng nghanran y cyfraniadau Cymraeg mewn cyfarfodydd Pwyllgorau. Gall Aelodau dderbyn cefnogaeth yn eu dewis iaith swyddogol wrth baratoi ar gyfer trafodion y cyfarfod llawn a phwyllgorau, gan gynnwys dogfennau briffio. Mae nifer o faterion allanol yn effeithio ar ganran y cyfraniadau gan gynnwys dewis iaith tystion sy'n rhoi tystiolaeth i bwyllgorau, a natur llai strwythuredig y trafodaethau mewn cyfarfodydd pwyllgorau.

Serch hynny, mae'r ffigyrau yn destun pryder. Byddwn yn parhau gyda'n hymdrechion i sicrhau bod Aelodau ac eraill sy'n cymryd rhan mewn trafodion yn ymwybodol o'u hawl i ddefnyddio'u dewis iaith mewn trafodion, ac yn hyderus i wneud hynny. Yn ogystal â pharhau i ddarparu gwasanaethau megis hyfforddiant wedi'i deilwra i'r Aelodau sy'n dysgu Cymraeg, dogfennau briffio dwyieithog a geirfaoedd, byddwn hefyd yn mynd ati i ymgysylltu ag Aelodau, Staff Cymorth a Staff y grwpiau i drafod y mater. Y bwriad yw deall yn well y rhesymau dros y gostyngiad mewn cyfraniadau Cymraeg, a thrafod pa fath o gefnogaeth fyddai'n eu hannog i ddefnyddio eu sgiliau Cymraeg mewn trafodion.

# Themâu

## Sgiliau Iaith

Mae’r Tîm Ieithoedd Swyddogol yn adolygu ac yn ehangu ein darpariaeth dysgu Cymraeg yn rheolaidd. Mae cyfle i Gyd-gysylltwyr Ieithoedd Swyddogol godi unrhyw faterion yn ymwneud â’r ddarpariaeth sydd ar gael i staff Comisiwn y Senedd yng nghyfarfod Fforwm y Cyd-gysylltwyr, ac mae aelodau unigol o staff yn gallu cysylltu yn uniongyrchol â’r tîm trwy e-bost neu wyneb yn wyneb. Mae rheolwyr llinell yn trafod anghenion hyfforddi, gan gynnwys sgiliau iaith Gymraeg fel rhan o’r sgyrsiau Adolygu Perfformiad a Datblygiad. Mae Aelodau a’u Staff Cymorth yn cael gwybod am unrhyw hyfforddiant penodol trwy Fewnrwyd yr Aelodau, ac mae modd iddynt gysylltu â’r Tîm Ieithoedd Swyddogol

Mae’r Tiwtoriaid Cymraeg yn datblygu cyrsiau ac adnoddau wedi’u teilwra i unigolion yn rheolaidd a hynny mewn cydweithrediad gyda’r unigolion a/neu eu rheolwyr llinell. Eleni, mae’r tîm wedi peilota sawl darpariaeth newydd gan gynnwys:

- Darpariaeth ddwys i Aelod unigol dros gyfnod toriad yr haf;
- Sesiynau ychwanegol ochr yn ochr â’r gwersi arferol i gynorthwyo aelod o staff y Comisiwn i gymhwyso’i sgiliau i’w rôl;
- Cyfres o wersi dwys dros gyfnod o wythnos i ddysgwyr lefel Mynediad;
- Llyfryn ymadroddion i’w defnyddio mewn cyfarfodydd pwyllgorau a recordiad sain o’r ymadroddion hynny.

Mae'r tîm yn cynnal boreau coffi a sesiynau te prynhawn rheolaidd i ddysgwyr gyfarfod ac ymarfer eu sgiliau. Gall dysgwyr ddewis cael eu cysylltu â mentor sy'n siaradwr Cymraeg rhugl i ymarfer eu sgiliau y tu allan i'r ystafell ddosbarth. Mae llawer o ddysgwyr yn teimlo bod y ddarpariaeth yn rhoi cyfle iddynt nid yn unig fuddsoddi yn eu datblygiad personol eu hunain, ond hefyd i ffurfio perthnasoedd â chydweithwyr y tu allan i'w tîm agos. Mae dysgwyr yn elwa o'r newid pwyslais y mae gwersi neu sesiynau ymarfer yn ei ddarparu ac maent hefyd yn nodi effaith gadarnhaol ar les ac iechyd meddwl.

## Recriwtio

Cafodd cyfnod pandemig y Coronafeirws effaith ar y ffordd mae pobl sy'n gwneud cais am swyddi ar lefel Cwrteisi yn cael eu hasesu. Roedd teimlad cryf nad oedd asesiad ar-lein yn gweithio ar y lefel Cwrteisi. Penderfynwyd asesu'r ymgeisydd llwyddiannus yn unig, a hynny fel rhan o'u cyfnod prawf yn y swydd. Mae'r ffordd mae pobl yn gweithio hefyd wedi newid gyda'r rhan fwyaf o bobl yn gweithio yn hyblyg rhwng eu cartrefi a swyddfeydd y Senedd. Er mwyn sicrhau ein bod yn mynd i'r afael â'r newidiadau hyn datblygwyd modiwl Cwrteisi newydd a chafodd y modiwl ei dreialu yn ddiweddar. Mae'r modiwl ar gael i unrhyw aelod o staff y Comisiwn ond bydd yn orfodol i'r sawl sydd wedi eu penodi i swydd ar lefel Cwrteisi. Roedd y peilot yn llwyddiannus gyda nifer o'r unigolion a dderbyniodd hyfforddiant yn dewis parhau i ddatblygu eu sgiliau gan ymuno â dosbarth Cymraeg yn y Senedd. Mae'r hyfforddiant ar gael i staff cymorth ac Aelodau o'r Senedd hefyd ond nid oes rheidrwydd iddynt gwblhau'r modiwl fel rhan o'u cyfnod prawf.

Roedd cynnal yr arolwg sgiliau iaith Gymraeg yn gyfle unigryw i dreialu newidiadau i'r diffiniadau ar gyfer y lefelau sgiliau iaith Gymraeg a nodir yn y matrics sgiliau iaith. Llynedd, cafwyd adborth o sawl ffynhonnell bod unigolion yn ei gael yn anodd pennu lefel eu sgiliau wrth ddefnyddio'r diffiniadau yn y matrics. Mae'r tîm wedi symleiddio'r disgrifiadau, ac wedi ychwanegu adran sy'n helpu siaradwyr newydd a rhugl i adnabod eu lefel hwy gan ddefnyddio enwau cyrsiau Dysgu Cymraeg, ac addysg yng Nghymru. Bydd y tîm yn trafod y diffiniadau ymhellach gydag eraill er mwyn sicrhau eu bod yn addas cyn cyflwyno'r newidiadau terfynol i'w defnyddio yn llawn.

> *Mae dysgu Cymraeg yn gallu rhoi ymdeimlad o berthyn, dod â mwy o ystyr i fyw yng Nghymru, caniatáu trochi diwylliannol a chyflwyno pob math o fanteision o ran llesiant.*
>
> *Ers pandemig Covid, cafwyd llawer llai o ryngweithio achlysurol rhwng cydweithwyr, yn y cnawd ac ar-lein, ac mae dosbarthiadau Cymraeg fel petaen nhw wedi  llenwi'r bwlch hwnnw hyd yn oed yn well nag o'r blaen.*

## Ethos dwyieithog y sefydliad

### Ymwybyddiaeth

Mae nifer o'r digwyddiadau ar gyfer achlysuron arwyddocaol bellach wedi ymwreiddio yng nghalendr Comisiwn y Senedd. Mae'r tîm Ieithoedd Swyddogol wedi trefnu digwyddiadau neu wedi creu adnoddau a chynnwys ar-lein ar gyfer Diwrnod Shwmae – Su'mae, Dydd Santes Dwynwen, Dydd Gŵyl Dewi, Diwrnod Amser i Siarad a Diwrnod Hawliau'r Gymraeg Comisiynydd y Gymraeg. Mae'r digwyddiadau yn gyfle i ymgysylltu ag Aelodau a'u Staff yn ogystal â Staff y Comisiwn. Dros y flwyddyn hefyd, mae'r tîm wedi datblygu cyfres o gardiau cyfarch i'w dosbarthu ar achlysuron arwyddocaol megis Nadolig, Dydd Gŵyl Dewi ac ati. Mae'r cardiau yn cynnwys geirfa ac ymadroddion i'w defnyddio ar lafar neu yn ysgrifenedig mewn cysylltiad â'r achlysur penodol. Defnyddiwyd y cardiau ar thema'r Nadolig i'w harddangos ar fyrddau ffreutur Tŷ Hywel mewn cydweithrediad â'r tîm arlwyo.

Yn ogystal eleni, trefnwyd digwyddiad ychwanegol ar gyfer Aelodau, Staff Cymorth a Staff y Comisiwn sef Steddfod y Senedd. Roedd y Steddfod yn ddigwyddiad dwyieithog oedd yn dathlu doniau amrywiol. Cafwyd cystadlaethau barddoni Cymraeg a Saesneg, ffotograffiaeth, celf a chrefft a chystadlaethau ar bob lefel ar gyfer Dysgwyr Cymraeg. Cyhoeddwyd yr enillwyr mewn digwyddiad yn y Senedd, gyda chyfle i ymuno ar-lein hefyd. Yn dilyn digwyddiad hynod lwyddiannus, mae bwriad i gynnal Steddfod eto gyda chystadlaethau ychwanegol.

Ers sefydlu'r Gwasanaeth Gweithdrefnau a Sgiliau Seneddol, mae'r tîm wedi sefydlu cynllun cynefino i ddechreuwr newydd o fewn y Gwasanaethau Clercio. Mae'r cynllun yn cynnwys sesiynau ar bynciau craidd, yn amrywio o waith tîm y Siambr i ddeddfwriaeth, pwyllgorau, y gyllideb, deisebau, a rhoi'r Cynllun Ieithoedd Swyddogol ar waith. Mae'r sesiynau yn adeiladu ar y wybodaeth a ddarperir yn y sesiynau cynefino corfforaethol ac ar gael i staff newydd neu staff presennol sy'n dymuno diweddaru eu gwybodaeth. Cyd-gysylltwyr Ieithoedd Swyddogol y gwasanaethau sy'n cyflwyno, a darperir gwybodaeth ynghylch y ffordd mae'r Cynllun Ieithoedd Swyddogol yn berthnasol i'w gwaith bob dydd o ran busnes y Senedd. Mae'r cynnwys yn ymdrin â materion megis cyhoeddi agendâu, papurau ac adroddiadau, cynnal cyfarfodydd pwyllgorau, y Cyfarfod Llawn, a chyfathrebu gyda'r Aelodau a rhanddeiliaid.


Nadolig Llawen
Merry Christmas
Senedd Cymru
Welsh Parliament
Dysgwr
Dydd
Saint
Dysgwr

# Monitro a Chydymffurfio

Ni dderbyniwyd unrhyw gwynion ffurfiol am ein darpariaeth eleni. Mae gwaith pellach wedi'i wneud ar sicrhau bod materion sy'n dod i'r amlwg o ran cydymffurfio â'r Cynllun Ieithoedd Swyddogol yn cael eu hadnabod yn fuan.

Mae'r tîm wedi datblygu a chyflwyno canllawiau ar gyfer Cyd-gysylltwyr Ieithoedd Swyddogol Diben y canllawiau yw cynorthwyo Cyd-gysylltwyr i adnabod materion sy'n codi ac i wahaniaethu rhwng enghreifftiau o fethu â chydymffurfio â'r cynllun a chwynion ffurfiol, ac i gymryd camau priodol. Mae'n bwysig bod gweithdrefn ar waith er mwyn sicrhau ein bod yn gallu cofnodi a rhannu camau a gymerwyd a gwersi a ddysgwyd er mwyn osgoi'r un peth yn digwydd eto. Mae adnabod materion cyn gynted a phosibl yn golygu y gellir eu datrys yn gyflym gan osgoi cwynion gan Aelodau neu'r cyhoedd.

Mae Comisiwn y Senedd wedi nodi'r pwyntiau a wnaed gan y Pwyllgor Safonau Ymddygiad am ddewis iaith a chyfieithu yn ei Nawfed adroddiad i'r Chweched Senedd o dan Reol Sefydlog 22.9. Mae trefniant ar waith i'r Comisiynydd Safonau ddefnyddio gwasanaethau cyfieithu testun a chyfieithu ar y pryd Comisiwn y Senedd yn ôl yr angen, ac mae'r tîm Ieithoedd Swyddogol yn darparu cyngor ar weithio'n ddwyieithog hefyd. Mae Swyddfa'r Comisiynydd eisoes wedi dechrau ar y gwaith o gasglu manylion dewis iaith Aelodau o'r Senedd.

Fodd bynnag, rydym wedi methu â chyrraedd y safonau uchel sydd wedi eu gosod yn y Cynllun, neu wedi methu â bodloni disgwyliadau defnyddwyr ein gwasanaethau ar adegau eleni. Mae'r achosion hynny yn ymwneud â tri maes:

**Mewnrwyd Staff y Comisiwn.**

Yn ystod cyfnod o ailwampio tudalennau penodol ar fewnrwyd y staff cyhoeddwyd y tudalennau hynny trwy gamgymeriad, cyn i'r holl gynnwys fod ar gael yn ddwyieithog. Roedd y tudalennau yn dal i fod ar ffurf drafft ar y pryd ac yn destun profi i sicrhau eu bod yn addas i bwrpas. Pan ddaeth y camgymeriad i'r amlwg, cymerwyd camau i sicrhau bod y tudalennau i gyd yn cael eu cyhoeddi yn y ddwy iaith mor fuan a phosibl. Trafododd y Cyd-gysylltydd y mater gyda'r tîm, oedd eisoes yn ymwybodol o'r angen i gydymffurfio â gofynion y Cynllun Ieithoedd Swyddogol. Mae'r tîm wedi sicrhau bod prosesau ar gyfer llunio tudalennau yn y dyfodol yn cynnwys yr angen i wirio bod tudalennau ar gael yn ddwyieithog cyn eu cyhoeddi.

### Neges i'r holl staff

Roedd angen cysylltu â holl staff Comisiwn y Senedd i gyfleu neges ynghylch mater y byddai angen i bawb gymryd camau yn ei gylch yn weddol fuan. Anfonwyd yr e-bost cyn i'r testun fod ar gael yn ddwyieithog. Codwyd y mater gyda Chyd-gysylltydd y gwasanaeth a thrafodwyd y mater gyda'r unigolyn a'r tîm perthnasol. Atgyfnerthwyd yr angen i sicrhau bod e-byst at yr holl staff yn ddwyieithog cyn eu hanfon, a thrafodwyd y prosesau sydd yn eu lle i wneud cais am gyfieithiadau brys ar adegau o'r fath. Mae'r gwaith o lunio a lansio'r strategaeth gyfathrebu mewnol eleni hefyd wedi cynorthwyo i bwysleisio'r broses cyfathrebu cyflym.

### Gohebiaeth a dewis iaith.

Anfonwyd gohebiaeth at unigolyn ynghylch sawl mater cyfrinachol. Wrth ymateb i'r ohebiaeth, nododd yr unigolyn nad oeddent wedi derbyn yr ohebiaeth yn eu dewis iaith. Aeth y tîm ati i gyflwyno ymddiheuriad i'r unigolyn a sicrhau bod unrhyw ohebiaeth bellach yn digwydd yn newis iaith yr unigolyn. Wedi i'r materion dan sylw yn yr ohebiaeth gael eu datrys, rhoddodd y Tîm Ieithoedd Swyddogol gyngor ar brosesau a gweithdrefnau ar gyfer achosion o'r fath i'r tîm. Rhoddwyd sicrwydd i'r unigolyn hefyd bod camau wedi eu cymryd fel na fyddai'r un peth yn digwydd eto.

Mae adborth ar ein gwaith bob amser yn werthfawr. Eleni, cynhaliwyd arolwg o'r Aelodau a'u Staff Cymorth i gasglu barn am wasanaethau'r Comisiwn. Mae'r gallu i weithio yn eu dewis iaith yn un o'r meysydd a drafodir yn yr arolwg. Unwaith eto eleni, derbyniwyd adborth arbennig o gadarnhaol gyda sgôr uchel gan Aelodau a'r Staff Cymorth. Aeth y tîm ati i ymdrin ag unrhyw bwyntiau a godwyd neu argymhellion a wnaed am y gwasanaethau. Cafwyd sawl enwebiad eleni hefyd ar gyfer y tîm, gydag un o'r Tiwtoriaid Cymraeg yn cael eu henwebu ar gyfer Tlws y Tiwtor 2023 y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Yn ogystal derbyniodd dau o'r Tiwtoriaid Cymraeg enwebiadau ar gyfer gwobr Angerdd Cynllun Cydnabod Comisiwn y Senedd, ac enillodd dau ddysgwr y wobr ei hun am eu hymroddiad i ddysgu Cymraeg.

Senedd Cymru
Welsh Parliament

www.senedd.cymru | www.senedd.wales